



Lesley Griffiths, AS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru

1 Chwefror 2023

Annwyl Weinidog,

### Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 22 Rhagfyr 2022, ynglŷn ag ymateb fy swyddfa i ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i'r Bil uchod. Rwy'n cysylltu gyda chi yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil ddiwedd mis Ionawr.

Rwy'n falch fod y Pwyllgor wedi dyfynnu ein tystiolaeth, gan gynnwys y tri phrif fater y gofynnem i chi fynd i'r afael â nhw yng Nghyfnod 2, yn ein llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr 2022. Ar sail ein tystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn gwneud argymhelliad penodol i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â'r Gymraeg:

“Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gryfhau ei ddarpariaethau ar gyfer cynnal a hybu'r Gymraeg: gall hyn gynnwys drwy ei hychwanegu at y rhestr o ddibenion yn adran 8, ac ymrwmo i gynnwys dangosyddion a thargedau penodol er mwyn mesur canlyniadau yn well.” (Argymhelliad 11)

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru, a ddangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2021. Rhwng 2011 a 2021 bu gostyngiad o tua 23,700 yn y nifer sy'n siarad Cymraeg<sup>1</sup> gan gynnwys gostyngiad mewn ardaloedd gwledig megis Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae hyn yn amlygu'r angen i Lywodraeth Cymru weithredu ar draws ei holl feysydd polisi i gefnogi cyflawniad ei strategaeth, *Cymraeg 2050*.

<sup>1</sup> [Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg | Blog Digidol a Data \(llyw.cymru\)](#)



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Gofynnaf yn garedig i chi, felly, barhau i ystyried cynnwys ymateb fy swyddfa i'r ymgynghoriad ar y Bil hwn a chynnwys gwelliannau yng Nghyfnod 2 y Bil sy'n adlewyrchu ein hargymhellion ac argymhelliad 11 adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Byddai fy swyddogion yn falch o drafod y mater hwn ymhellach â'ch swyddogion.

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**  
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig;  
Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Gymraeg